

STRATEGAETH Y GYMRAEG, 2024-29



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



Shwmae, Su'mae?

Lowri Joyce, Arweinydd Strategaeth y Gymraeg



Ydych chi eisiau dechrau sgwrs yn Gymraeg ond ddim yn siŵr sut i ddechrau (neu'n poeni a ddylech chi)? Ydych chi eisiau gweld a chlywed mwy o Gymraeg? Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod mwy o bobl yn dysgu ac yn defnyddio'r iaith?

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydyn ni'n Gymraeg yn gyntaf ac yn bennaf. Rydyn ni am i'r Gymraeg fod yn rhan ganolog o brofiad teithio pobl. Boed hynny ar eich taith ddyddiol i'r gwaith, taith diwrnod i'r traeth neu deithio i weld Cymru'n chwarae rygbi (neu bêl-droed). Mae TrC yn gynhenid Gymreig – ac yn falch o hynny.

Rydyn ni'n uwchraddio ein rhwydwaith i wneud yn siŵr eich bod chi'n gweld ac yn clywed Cymraeg a Saesneg (yn y drefn honno) ym mhob man. Mae TrC wedi bod yn sefydliad dwyieithog erioed. Wrth i ni ddatblygu ein presenoldeb yng Nghymru, rydyn ni am fynd gam ymhellach i ddangos ein balchder yn yr iaith.

Dylai ein teithwyr allu defnyddio'r iaith o'u dewis. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol ar draws ein sefydliad, yn allanol ac yn fewnol

Mae technoleg yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ehangu ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'n cynnig cyfle i ni ymgorffori dewis iaith mewn ffyrdd arloesol ym mhob un o'n meysydd busnes ac ar draws gwahanol ddulliau teithio.

Rydyn ni'n cyd-fynd â gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n golygu normaleiddio'r Gymraeg a chynyddu ei defnydd. Mae themâu allweddol y weledigaeth hon yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol ein gweithgareddau. Rydyn ni'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Rydyn ni'n creu amodau ffafriol a chefnogol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ein pobl, ein cwsmeriaid a'n cymunedau.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein blaenoriaethau a beth fydd y canlyniadau dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yn sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd ynghylch pa gynnydd sy'n cael ei wneud, drwy astudiaethau achos a dangosyddion perfformiad, drwy gydol y daith.

Ni allwn gymryd y daith hon ar ein pen ein hunain. Mae TrC bob amser yn awyddus i glywed eich adborth, eich syniadau ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd!



Cefndir

Rydyn ni eisiau bod yn ddewis cyntaf i bobl deithio yng Nghymru. Mae defnyddio a dathlu'r Gymraeg yn rhan annatod o'r genhadaeth honno. Mae'n sicrhau ein bod yn cyfrannu at gynnal diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu nawr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyflawni hyn, rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r daith. Mae hyn yn cynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n amharod i ddefnyddio'r iaith, siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith a hefyd y rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Mae teithio a thrafnidiaeth yn un maes lle gall pobl profi a dod i gysylltiad â'r Gymraeg a chyfrannu ati. Yn TrC, mae gan bawb ran i'w chwarae, ac rydyn ni eisiau i bawb gyfrannu at wireddu ein huchelgais. Dylai'r Gymraeg fod yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae'n iaith gyntaf (a dewis cyntaf) llawer o bobl a dylent allu ei defnyddio ar ein gwasanaethau.

Mae iaith bob amser yn datblygu, ac rydyn ni'n agored i syniadau newydd am integreiddio'r Gymraeg ar draws ein rhwydwaith. Mae'r strategaeth hon yn ddeialog. Rydyn ni eisiau clywed adborth pobl, ymateb iddo a'i roi ar waith



Egwyddorion arweiniol

Cymraeg yn gyntaf ac i bawb

Dylai siaradwyr Cymraeg bob amser deimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r iaith. Byddwn yn adeiladu ein gwasanaethau o amgylch y ffaith hon, gan sicrhau bod profiad siaradwyr Cymraeg o gyrraedd lle maen nhw eisiau mynd mor hawdd â phrofiad siaradwyr Saesneg.

Ymgorffori'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd

Dylai defnyddio'r Gymraeg fod yn arferol. Byddwn yn ei gynnwys mewn gweithgareddau a thrafodaethau bob dydd.

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Rydyn ni bob amser yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn TrC. Mae pawb sy'n dymuno dysgu neu wella yn cael cymorth i wneud hynny.





Beth fyddwn ni'n ei wneud

I'n pobl

- Sicrhau bod gan ein staff yr offer a'r adnoddau cywir i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu'r sgiliau hyn ymhellach.
- Nodi rolau o fewn y busnes a fyddai'n elwa o gael sgiliau iaith Gymraeg cryfach.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn prosesau a gweithgareddau mewnol o ddydd i ddydd, gan normaleiddio defnydd bob dydd.
- Creu rolau dwyieithog perthnasol a chyfrifoldebau sy'n benodol i iaith.
- Darparu fframwaith i'r rhai nad ydynt yn hyderus gyda'r Gymraeg, gan ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i sicrhau cydymffurfiaeth safonol.
- Cynnig yr holl wasanaethau mewnol i weithwyr a chymorth cyfrifiadurol yn ddwyieithog.

Ar gyfer ein cwsmeriaid

- Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran dewis a darpariaeth iaith.
- Sicrhau seilwaith cwbl ddwyieithog, fel cyhoeddiadau gweledol a sain, systemau sy'n delio â chwsmeriaid, arwyddion a dulliau canfod y ffordd yn ddwyieithog.
- Cynyddu defnyddio'r Gymraeg mewn cyhoeddiadau mewn gorsafoedd a gwasanaethau swyddfa docynnau.
- Cynyddu defnyddio'r Gymraeg fel dewis iaith ar adnoddau cyfathrebu fel tanysgrifiadau e-bost.
- Nodi a lliniaru unrhyw rwystrau ac anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau Cymraeg.
- Cyflwyno proses i leihau camgymeriadau mewn arwyddion, cyfieithiadau a chyhoeddiadau Cymraeg.

Ar gyfer y diwylliant


- Gweithio'n agos gyda phartneriaid i gefnogi ymdrechion iaith fel cyngor gyrfaedd i blant ysgol a chefnogi grwpiau cymunedol lleol.
- Cefnogi digwyddiadau diwylliannol pwysig fel yr Eisteddfod.
- Cyfraniad allweddol at ddatblygu Safonau'r Gymraeg (sy'n benodol i'r sector) yn y dyfodol (sy'n benodol i'r sector).
- Sicrhau bod pob contract yn bodloni gofynion y Gymraeg.
- Sicrhau bod pobl yn gallu rhoi adborth yn Gymraeg a sicrhau ein bod yn gallu prosesu'r adborth hwn yn gywir.





Pryd fyddwn ni'n ei wneud

Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y cerrig milltir hyn yn rheolaidd fel rhan o'r gwaith o roi'r strategaeth ar waith. Bydd y cynnydd yn cael ei gyhoeddi'n gyhoeddus yn Adroddiad Blynyddol TrC ac yng nghyfarfodydd arwain gweithredol Trafnidiaeth Cymru.



Conwy



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES